COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD LLUN, 11 CHWEFROR 2019, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd CA Green – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | N Clarke | T Giffard | M Jones |
| RL Penhale-Thomas | B Sedgebeer | RMI Shaw | JC Spanswick |
| T Thomas | CA Webster | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

J Gebbie

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Tracy Watson | Scrutiny Officer |
| Kelly Watson | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol a Swyddog Monitro |

105. DATGANIADAU O GYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd C Webster gysylltiad yn eitemau 3 a 4 yr Agenda, oherwydd bod ei mab yn derbyn Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol (Lleoliad y Tu Allan i'r Sir)

106. MONITRO'R GYLLIDEB 2018 – 19 – RHAGOLWG CHWARTER 3

Diben yr adroddiad hwn yw darparu diweddariad i'r Pwyllgor ar sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Rhagfyr 2018.

O roi cefndir, dywedodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro, ar 28 Chwefror 2018, fod y Cyngor wedi cymeradwyo cyllideb refeniw net o £265.984 miliwn ar gyfer 2018-19, ynghyd â rhaglen gyfalaf ar gyfer y flwyddyn o £33.693 miliwn, sydd ers hynny wedi'i diweddaru i ystyried cymeradwyaeth a llithriant newydd rhwng y blynyddoedd ariannol. Fel rhan o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad, adolygir amcanestyniadau o'r gyllideb yn gyson ac fe'u hadroddir i'r Cabinet bob chwarter. Yn ogystal, caiff cyflawniad o ostyngiadau cytûn i'r gyllideb eu hadolygu a'u hadrodd i'r Cabinet fel rhan o'r broses hon.

Cadarnhaodd Paragraff 4.1.1 yr adroddiad gyllideb refeniw net ac alldro rhagamcanol y Cyngor ar gyfer 2018-19, gyda Thabl 1 yn y rhan hon o'r adroddiad yn adlewyrchu cymhariaeth o'r gyllideb yn erbyn alldro rhagamcanol ar 31 Rhagfyr 2018.

Wedyn, ehangodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro ar rai o'r manylion ariannol sydd wedi'u cynnwys yn y Tabl er budd yr Aelodau.

Gwnaeth Tabl 2 ar dudalen 6 yr adroddiad adlewyrchu unwaith eto ar ffurf tabl, rai o Ostyngiadau Cyllideb y Flwyddyn Flaenorol sy'n weddill fesul Cyfarwyddiaeth.

Yna dangosodd Paragraff 4.2.5 yr adroddiad y Gostyngiadau i'r Gyllideb ar gyfer 2018-19 a gwnaeth y rhain gyfanswm o £6.123m, sydd wedi'u rhannu i fyny yn Atodiad 2 (yr

adroddiad) a'u crynhoi yn Nhabl 3. Roedd y sefyllfa sydd ohoni'n diffyg rhagamcanol ar y targed arbedion o £379,000, neu 6.2% o'r targed cyllideb cyffredinol.

Yna, rhoddodd paragraff 4.3 yr adroddiad rai sylwadau ar y sefyllfa ariannol ar 31 Rhagfyr 2018, ar ffurf crynodeb ar gyfer pob prif faes gwasanaeth (Atodiad 3 yr adroddiad) gyda sylwadau ar yr amrywiadau mwyaf arwyddocaol a ddangoswyd yn y rhan hon o'r adroddiad. Rhoddodd hyn grynodeb ar gyllidebau Ledled y Cyngor hefyd.

Yna, rhannodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro wybodaeth gydag Aelodau mewn perthynas â monitro'r Rhaglen Gyfalaf a'r Adolygiad o Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi, gyda Thabl 4 ym mharagraff 4.5.2 yn dangos yr un olaf yn symud hyd at ddiwedd Chwarter 3.

Yn olaf, clôdd ei chyflwyniad, trwy gyfeirio Aelodau at ddata yn Nhabl 5 yr adroddiad, a ddangosodd y Dyraniadau Arian Net i/o Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi i Chwarter 3.

Teimlai Aelod fod cynnydd da wedi'i wneud mewn perthynas â gostyngiadau'r gyllideb yn Chwarter 3, yn enwedig gan fod y Gyfarwyddiaeth Cymunedau wedi dangos gwelliant mewn arbedion o'r blaen, o oddeutu 8%.

Cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro'r Pwyllgor at y naratif a ddilynodd Tabl 2 yn yr adroddiad, meysydd lle targedwyd arbedion ond lle'r oeddent heb eu bodloni ac roedd y rhain yn cynnwys Gostyngiadau i'r Ganolfan Ynni ac Adfer Deunyddiau (MREC) lle'r oedd diffyg o £200,000 nad oedd yn debygol o gael ei fodloni erbyn diwedd y flwyddyn.

Rhoddodd y Prif Weithredwr Dros Dro wybod o ran yr arbediad sydd wedi'i glustnodi ond heb ei gyflawni eto mewn perthynas â'r Cynllun Caniatáu Gwaith Ffyrdd (£100,000), mai'r rheswm oedd yr oedi yn y broses gymeradwyo gyda Llywodraeth Cymru (LlC). Roedd y penderfyniadau hyn yn parhau ond ychwanegodd ei fod yn obeithiol y byddai'r arbediad yn cael ei wneud yn y dyfodol gweddol agos.

Mewn perthynas â'r ffaith nad oes diffyg o ran yr arbedion sydd wedi'u clustnodi ar gyfer Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, esboniodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod angen rhywfaint o ofal yn y fan honno, gan fod cynigion ad-drefnu a thrawsnewid staff yn digwydd/ar y gweill yn y Gyfarwyddiaeth hon.

Ychwanegodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio at hyn, trwy ddatgan nad oedd unrhyw gynlluniau eleni ar gyfer y gostyngiadau mewn staff yn yr Adran Gyfreithiol, a chafwyd rhywfaint o gapasiti ychwanegol i gefnogi'r Twrneiod, trwy recriwtio staff Paragyfreithiol.

Mewn perthynas â'r diffyg arbedion yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles a oedd yn gwneud cyfanswm o oddeutu £783,000 ar hyn o bryd, teimlai un Aelod gan fod hwn yn swm sylweddol o arbedion heb ei gyflawni eto, dylid cael rhywfaint o naratif (yn yr adroddiad) yn esbonio sut byddai hyn yn cael ei fodloni, gan gynnwys graddfeydd amser ac ati. Cydnabyddodd fod Cynllun Cyflawni ar waith i gyfeirio hyn, ond teimlai y dylid rhoi rhywfaint o esboniad hefyd gan fod swm y diffyg yn sylweddol.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod y Cynllun Cyflawni wedi bodoli ers dwy flynedd ac ar y trywydd iawn o ran bodloni'r diffyg yn unol â'r amserlen oedd wedi'i chynnwys yn y Cynllun. Byddai'r gorwariant yn cymryd rhywfaint o amser i'w gyflawni, ac roedd yn cael ei fodloni mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys ffyrdd mwy arloesol o weithio, yn ogystal â newid y ffordd yr oedd rhai gwasanaethau'n cael eu cyflwyno. Ychwanegodd fod y gorwariant wedi gostwng o £1.2m i lle'r oedd yn sefyll ar hyn o bryd. Roedd yr anhawster yn un hanesyddol, am fod niferoedd y lleoliadau Plant sy'n Derbyn Gofal/ y Tu Allan i'r Sir yn anodd eu darogan

neu reoli, ond roedd niferoedd yr achosion hyn yn lleihau. Roedd rhywfaint o waith da'n cael ei wneud hefyd wrth feithrin mwy o drefniadau gweithio mewnol a gwell ar gyfer yr unigolion hynny oedd yn cael Gofal Preswyl, a oedd hefyd yn cyfrannu at y gorwariant a ychwanegodd.

Nododd yr Aelodau fod rhaid gwneud arbedion o hyd yn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau, nid dim ond fel arbedion wedi'u clustnodi yr oedd angen i'r Gyfarwyddiaeth eu gwneud yn ei hun ond hefyd er mwyn cefnogi rhai gwasanaethau statudol yn y Cyfarwyddiaethau Addysg a Chymorth Teuluol a Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, ac yn rhai o ardaloedd yr Awdurdod, roedd rhai swyddi gwag yn cael eu cadw er mwyn dirymu o bosibl arbedion pellach i'r dyfodol y gallai fod angen eu gwneud dan y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC).

Nododd Aelod o dudalen 13 yr adroddiad fod gorwariant rhagamcanol o £140,000 ar draws y Gwasanaethau Fflyd, oedd yn debyg i alldro 2017-18, yn sgil dirywiad mewn incwm oedd yn codi o'r gostyngiad mewn gwariant gan Gyfarwyddiaethau, a bod y Gyfarwyddiaeth wedi bwriadu ymgymryd ag adolygiad o'r gwasanaeth yn y dyfodol agos. Gofynnodd pryd byddai'r adolygiad hwn yn cael ei gynnal ac a fyddai'r gwasanaeth yn gweithio'n fwy effeithiol wedyn.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod y Gwasanaethau Fflyd ar hyn o bryd yn ailgodi ar Gyfarwyddiaethau am brynu a chynnal a chadw'r fflyd. Ar hyn o bryd, nid oedd yn siŵr a fyddai'r mecanwaith ail godi'n destun unrhyw newid sylweddol (fan hyn byddai'r Polisi'n destun archwiliad pellach), hyd nes i'r adolygiad gael ei gwblhau a chynhyrchiant ac effeithiolrwydd y gwasanaeth ei fesur wrth symud ymlaen. Pwysigrwydd y gwasanaeth penodol hwn oedd ei fod yn adennill costau o leiaf neu'n gwneud arian yn hytrach na chael y gwasanaeth ar ei golled o ran cynhyrchiant busnes.

**Argymhellion:**

- Nododd yr aelodau gostyngiadau'r flwyddyn flaenorol i'r gyllideb oedd yn weddill gan y Cyfarwyddiaethau Cymunedau ac Addysg a Chymorth i'r Teulu, fel y cyflwynir yn nhabl 2. Mae'r Aelodau'n argymell bod adroddiadau i'r dyfodol yn darparu naratif manylach o ran diffygion, yn enwedig mewn perthynas â Chyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.

- Nododd yr aelodau hefyd fod angen naratif pellach mewn perthynas â'r amrywiadau i Wasanaethau Fflyd dan 4.3.3, er mwyn dangos beth mae angen ei wneud a sut mae'n mynd i gael ei wneud. Mae'r aelodau'n argymell fod y naratif yn cynnwys manylion o ran yr amserlenni ar gyfer yr adolygiad Gwasanaethau Fflyd.

107. STRATEGAETH CYFALAF 2019 – 20 YMLAEN

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adran 151 adroddiad, ei ddiben oedd cyflwyno i'r Pwyllgor Strategaeth Cyfalaf ddrafft 2019-20 i 2028-29, oedd yn cynnwys y Dangosyddion Darbodus (Atodiad A i'r adroddiad y cyfeirir ato).

O roi cefndir, dywedodd fod rheolaeth Gwariant Cyfalaf yn seiliedig ar ddeddfwriaeth. Mae'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru), fel y diwygiwyd, yn cynnwys darpariaethau manwl ar gyfer y dulliau rheoli cyllid cyfalaf a chyfrifyddu, yn cynnwys y rheolau ar ddefnyddio derbyniadau cyfalaf a'r hyn fydd yn cael ei drin fel gwariant cyfalaf. Maen nhw'n diwygio arfer cyfalaf a'r hyn fydd yn cael ei drin fel gwariant cyfalaf. Maen nhw'n diwygio ymarfer cyfrifyddu mewn amryw ffyrdd i atal effeithiau andwyol ar adnoddau refeniw'r awdurdodau.

Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd CIPFA rifyn newydd o'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol. Gosododd y Cod diwygiedig uchod ofyniad ar awdurdodau lleol i benderfynu ar Strategaeth Gyfalaf, i'w cymeradwyo gan y Cyngor llawn, a fydd yn dangos bod yr awdurdod yn cymryd penderfyniadau gwariant cyfalaf a buddsoddi yn unol ag amcanion y gwasanaeth ac yn ystyried yn briodol stiwardiaeth, gwerth am arian, darbodaeth, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.

Dywedodd yn dilyn cymeradwyaeth y Strategaeth Cyfalaf, bydd unrhyw gynlluniau lle mae cyllid allanol wedi'i gymeradwyo'n cael eu hychwanegu at y Rhaglen Gyfalaf ar ôl i'r cyllid gael ei dderbyn a'i gynnwys yn yr adroddiad rhaglen gyfalaf nesaf i'r Cyngor.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y Strategaeth Gyfalaf ddrafft a'r atodlenni cysylltiedig a gafodd eu cynnwys yn Atodiad A yr adroddiad.

Byddai hyn, a fyddai'n destun adroddiadau i'r Cabinet a'r Cyngor ym mis Chwefror, yn cadarnhau ufudd-dod y Cyngor i'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol. Byddai'n gosod rhai egwyddorion arweiniol ar gyfer penderfyniadau cyfalaf, yn ogystal â gosod fframwaith i hunan-reoli cyllid cyfalaf ac yn astudio meysydd ariannol allweddol fel a ddengys ar ffurf pwyntiau bwled ym mharagraff 4.4 yr adroddiad.

Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adran 151 fod y Strategaeth hefyd yn adrodd ar gyflwyno, fforddiadwyedd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r cyd-destun tymor hir y gwneir penderfyniadau ar wariant cyfalaf a buddsoddi ynddynt.

Yn olaf, cyfeiriodd at nodau allweddol ac egwyddorion arweiniol y Strategaeth Gyfalaf, gan roi crynodeb ar bob un o'r rhain hefyd.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 52 yr Atodiad, hanner ffordd i lawr y dudalen hon lle cadarnhawyd bod cyfanswm gwerth yr Eiddo Buddsoddi'n £4.360m ar 31 Mawrth 2018, a greodd incwm rhentu o £438,000 y flwyddyn. Gofynnodd ai incwm gros neu net oedd hwn.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adran 151 mai'r incwm net oedd hwn.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 61 yr Atodiad a Rheoli Risgiau, lle rhestrodd dri risg y mae gweithgareddau'r Cyngor yn amlygu ei hun iddynt, h.y. risg Credyd, risg Hylifedd a risg y Farchnad. Mewn perthynas â'r rhain, gofynnodd pa fesurau lliniaru yr oedd gan yr Awdurdod ar waith i baratoi ei hun ar gyfer canlyniad Brexit.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod Fforwm Brexit wedi'i sefydlu yn y Cyngor, er mwyn cadarnhau'r effaith bosibl y byddai canlyniad Brexit yn ei gael ar sefydliadau busnes, sy'n cynnwys y sector cyhoeddus a phreifat ac roedd y Fforwm yn bwriadu rhoi Cofrestr Risg at ei gilydd (sy'n dynodi'r risgiau potensial allweddol i CBSP) a fyddai maes o law yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet i'w hystyried. Cyn gynted ag yr oedd y risgiau hyn yn cael eu cadarnhau'n llawn, yna byddai'r rhain yn eu tro'n edrych ar gael eu lliniaru.

Yn ogystal, byddai CLILC yn bwriadu cynnal cyfarfod yn yr wythnosau nesaf mewn perthynas â Brexit a chadarnhaodd y byddai'n cadarnhau dyddiad hwn ac yn ei roi i mewn yng nghalendrau'r Aelodau yn unol â hynny.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 68 yr Atodiad lle cynghorodd, er bod arian Adran 106 yn dod o gyfraniadau'r datblygwr trwy'r system gynllunio, oni bai fod amodau penodol i'r gwasanaeth ar ddefnyddio'r Adran 106 (sydd yno'n gyffredinol), dylid defnyddio'r arian i gefnogi blaenoriaethau ac ymrwymiadau presennol y Cyngor yn hytrach na'u dyrannu i

gynlluniau newydd. Bydd unrhyw wariant Adran 106 a dderbynnir heb ddyraniad penodol i wasanaeth neu gynllun yn y cytundeb cynllunio'n cael eu dyrannu yn unol â blaenoriaethau cynllun cyfalaf y Cyngor. Anghytunodd â'r egwyddor hon, gan ychwanegu y dylid ymroi unrhyw ddyraniad Adran 106 i'r datblygiad neu o fethu hynny, y maes yr oedd wedi'i bwriadu ar ei gyfer.

Cynghorodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adran 151 fod y rhan fwyaf o'r cyfraniadau Adran 106 yn benodol iawn ac yn cael eu gwario yn y meysydd yr oeddent wedi'u dyrannu ar eu cyfer. Fodd bynnag, yn hanesyddol, o beidio â defnyddio neu ddisbyddu symiau neu bocedi bach o'r cyllid hwnnw'n llawn, yna gellid eu defnyddio i gefnogi Cynlluniau Cyfalaf eraill yn ariannol.

Dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro y byddai'n cysylltu â'r Adran Gynllunio ac yn gofyn am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r uchod, ac yn ei dro, yn darparu hyn i'r holl Aelodau ac nid dim ond i aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ac/neu'r Pwyllgor Rheoli Datblygu.

Teimlai Aelod fod angen i bwnc Trosglwyddo Asedau Cymunedol gael ei gynnwys yn y Strategaeth Gyfalaf er mwyn gwneud rhywfaint o ymrwymiad ariannol i asedau'r Cyngor er mwyn gallu gwella ar y rhain ac yna i grwpiau neu sefydliadau cymunedol lleol gymryd perchnogaeth ohonynt o bosibl. I ddechrau, byddai'r gwariant hwn yn arbed arian i'r Cyngor (petai'r asedau hynny'n cael eu cymryd allan o'u dwylo) ac yn cael eu gweithredu a'u cynnal a chadw'n annibynnol gan eraill.

Dywedodd y Prif Weithredwr dros Dro fod y Cyngor wedi ymroi rhyw £1m i barciau a chyfleusterau chwarae, pafiliynau chwaraeon ac ystafelloedd newid ac ati er mwyn ymgymryd â gwaith cynnal a chadw mawr ei angen i'r adeiladau hyn, er mwyn i Glybiau a Chymdeithasau Chwaraeon fod â mwy o gyfle o gymryd dros y rhain, ac felly'n arbed arian i'r Cyngor yn y tymor hwy. Ychwanegodd fod dyrannu'r ymrwymiad hwn bellach wedi'i lacio er mwyn cwmpasu ardal ehangach o asedau na dim ond yr uchod.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adran 151 wrth y Pwyllgor fod yna rai egwyddorion arweiniol a oedd yn gofyn am ystyriaeth mewn perthynas â chynlluniau'r Awdurdod o ran ei wariant o'i Ddyraniad Cyfalaf ac roedd angen i'r rhain fod yn ddarbodus ac yn gynaliadwy.

O ran asedau'r Cyngor yn gyffredinol, roedd angen cynnal unrhyw waith cynnal a chadw neu ymgymryd ag unrhyw waith gwella/adnewyddu i'r adeiladau hyn yn nhrefn blaenoriaeth, ar ôl ystyried unrhyw elfen o risg yn unol â'r rheoliadau iechyd a diogelwch.

Nododd Aelod, yn anffodus bod gan y Cyngor bellach gwmpas cyfyngedig iawn i glustnodi adnoddau i wella'i asedau ar ffurf adeiladau i unrhyw raddau sylweddol o dan ei SATC ac, o bosibl, pan oedd mwy o arian ar gael i fynd ar drywydd hyn cyn y caledi economaidd, dylid bod wedi gwneud mwy o waith i'r asedau bryd hynny.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro fod adran Landlordiaid Corfforaethol y Cyngor wedi cychwyn nifer o Arolygon Cyflwr o'i asedau ac yn deillio o hyn, rhoi Rhestr Eiddo at ei gilydd o'r rhain i gyd. Roedd cynlluniau i gynnal gwelliannau i'w stoc, ond cytunodd mai dim ond lefel gyfyngedig o adnoddau oedd ar gael i wneud hyn ar sail blaenoriaeth. Roedd modd credu os nad oedd rhai sefydliadau ar y tu allan yn dangos diddordeb mewn cymryd y gwaith cynnal a chadw o'r rhain a bod eu cyflwr yn adfeilio, bydden nhw'n cau oherwydd y gofynion iechyd a diogelwch diffygiol.

Gan fod hyn yn cloi'r busnes, gwahoddwyd y Gwahoddedigion i fynychu'r cyfarfod, diolchodd y Cadeirydd nhw ar ran yr Aelodau, ac yn dilyn hynny gadawon nhw'r cyfarfod.

**Argymhellion:**

- Mae angen eglurhad pellach ar y geiriad ar dudalen 68 o ran cyfraniadau Adran 106.

- Trafodwyd hefyd y byddai'r wybodaeth yn cael ei chylchredeg i bob Aelod mewn perthynas ag Adran 106. Bod yr aelodau'n argymell bod hyn yn cynnwys y canlynol:-

    - datganiad o sefyllfa i ddangos pob cytundeb Adran 106 hyd yma;
    - faint gafodd ei gytuno;
    - am beth ydyw;
    - faint sydd wedi'i wario a pha weddill sydd ar ôl, os o gwbl, ac i beth y gellir defnyddio'r gweddill.

- At hynny, mae'r Aelodau'n argymell y dylid torri'r wybodaeth i lawr yn wardiau er mwyn i bob Cynghorydd allu cysylltu'r arian â'u ward.

- Gofynnodd yr aelodau am ragor o eglurder am y llog a gronnwyd ar y cronfeydd sy'n eistedd yng nghyfrif Adran 106 CBSP ac i beth y'i defnyddir.

Gofynnodd y Pwyllgor am ddod yn ôl â'r arolygon cyflwr i'r aelodau mewn perthynas ag asedau.

108. <u>BLAENRAGLEN WAITH TROSOLWG A CHRAFFU 2019/20</u>

Cyflwynodd y Swyddog Craffu adroddiad ar y mater uchod, er mwyn cyflwyno:-

a) yr eitemau y disgwylir iddynt gael eu hystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhelir ar 3 Ebrill 2019 a cheisio cadarnhad o'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer y cyfarfod dilynol a drefnwyd, y mae'r dyddiad heb ei gadarnhau eto.

b) rhestr o ymatebion i sylwadau, argymhellion a cheisiadau am wybodaeth ychwanegol o gyfarfod blaenorol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol;

c) rhestr o eitemau potensial y Blaenraglen Waith ar gyfer blaenoriaethu ffurfiol a dyraniad i bob un o'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc.

Yr adroddiad sydd ynghlwm yn Atodiad A, adborth o gyfarfodydd diweddar y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol, wrth i Atodiad B roi manylion yr eitemau i'w hystyried yn ei gyfarfod nesaf, mae'r dyddiad wedi'i osod dros dro ar gyfer 3 Ebrill 2019.

Wedyn, cyfeiriodd y Swyddog Craffu'r Aelodau at Atodiad C yr adroddiad, a amlinellodd bynciau i'w blaenoriaethu a'u cytuno gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer pob un o Flaenraglenni Gwaith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc. Rhoddodd Tabl 1 fanylion yr eitemau ar gyfer set nesaf pob un o'r rhain, wrth i Dabl 2 gynnwys awgrym o bynciau ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol ar ôl hyn.

Awgrymodd hefyd y gallai unrhyw gyfarfodydd a drefnwyd ar gyfer mis Ebrill a Mai 2019, gael eu defnyddio o bosibl fel cyfres o Weithdai er mwyn ystyried eitemau pellach ar gyfer Blaenraglenni Gwaith y Pwyllgorau 2019/20.

PENDERFYNWYD: Nodi bod yr adroddiad a'r wybodaeth gefnogol yn cynnwys yr hyn a amlinellwyd uchod.

109. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:45